Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Archwilio 2015

# Cyngor Sir Ynys Môn

**Cyhoeddwyd:** Mai 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 279A2015

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o waith a wnaed/i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn gosod allan yr arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partion perthnasol.
Yng nghyswllt y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan PricewaterhouseCoopers LLP a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2015 | |
| Crynodeb | 4 |
| Archwiliad o ddatganiadau ariannol | 4 |
| Ardystio ceisiadau ac adroddiadau am grantiau | 8 |
| Archwiliad o berfformiad | 9 |
| Ffi, tîm archwilio, annibyniaeth ac amserlen | 11 |
| Atodiadau | |
| Cyfrifoldebau | 15 |
| Astudiaethau cenedlaethol gwerth-am-arian | 18 |

# Cynllun Archwilio 2015

## Crynodeb

**1.** Fel eich archwiliwr allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sydd yn cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol ac yn cyflawni fy ymrwymiadau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio ac ardystio a yw eich datganiadau ariannol yn 'gywir a theg' ai peidio;
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni dyletswyddau ac wedi cwrdd â gofynion y Mesur; a
- cynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion o ran gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

**2.** Diben y cynllun hwn yw gosod allan fy ngwaith arfaethedig, pryd y'i gwneir, faint fydd yn gostio a phwy fydd yn ei wneud.

**3.** Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

**4.** Gosodir allan fy nghyfrifoldebau, ynghyd â rhai y rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, yn Atodiad 1.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd am y datganiadau ariannol sydd yn cynnwys barn ynghylch eu 'gwirionedd a'u tegwch'.

**6.** Yr wyf hefyd yn ystyried a wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn drefniadau priodol ai peidio i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau ac adrodd trwy eithriad os na fydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion.

**7.** Mae Atodiad 1 yn gosod allan fy nghyfrifoldebau yn llawn.

**8.** Mae'r gwaith archwilio a wnaf i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn fy ngalluogi i ddatblygu agwedd archwilio sydd yn canolbwyntio ar ymdrin â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd am y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm hagwedd archwilio, ac fe'u gwelir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Fy agwedd archwilio

**Cynllunio:**
Holi, arsylwi ac archwilio i ddeall yr endid a'i gamau rheoli mewnol er mwyn adnabod ac asesu risgiau

**Gweithredu:**
Rhoi prawf ar gamau rheoli, trafodion, balansau a datgeliadau mewn ymateb i'r risgiau hynny

**Dod i gasgliad ac adrodd:**
Gwerthuso tystiolaeth a gafwyd i ddod i gasgliad ac adrodd yn briodol

**9.** Mae'r risgiau o gamddatganiad materol berthnasol yr ystyriaf i'n arwyddocaol neu'n uwch ac sydd felly angen ystyriaeth archwilio arbennig, wedi eu gosod allan yn Arddangosyn 2 ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ei wneud i ymdrin â hwy.

Arddangosyn 2: Risgiau archwilio ariannol

| Risgiau Archwilio Arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Risg o dwyll mewn cydnabod refeniw a gwariant<br>Mae risg o gamddatganiad materol berthnasol oherwydd twyll mewn cydnabod refeniw, ac o'r herwydd fe'i trinnir fel risg arwyddocaol (ISA 240.26-27). Yr ydym hefyd yn ymestyn y risg hon i ymdrin â chydnabod gwariant, oherwydd bod risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifo neu drin trafodion incwm a gwariant mewn ffordd fyddai'n arwain at gamddatganiad materol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.<br>Yr ydym yn benodol wedi nodi dwy risg yn y maes hwn. Mae'r cyntaf yng nghyswllt cyllid grant refeniw anghylchol, i'r graddau na fydd refeniw yn cael ei gydnabod yn unol â thelerau ac amodau ei gyllido lle mae'r grantiau hyn ar gyfer rhaglenni penodol neu ddibenion unwaith-am-byth.<br>Mae'r ail am wariant yng nghyswllt gwariant sy'n ymwneud â chostau heb fod yn rhai cyflogres a all gael eu cydnabod yn anghyflawn, yn anghywir, neu yn y cyfnod cyfrifo anghywir. | Fe fyddwn yn deall ac yn gwerthuso'r camau rheoli sydd ar gael i liniaru'r risg hon a:<br>• rhoi prawf ar gysoniadau allweddol;<br>• rhoi prawf ar incwm grant refeniw anghylchol a gwariant nad yw'n wariant cyflogres er mwyn sicrhau ei fod wedi ei gynnwys yn briodol yn y cyfrifon; a<br>• profi i weld bod trafodion sy'n codi tua diwedd y flwyddyn yn cael eu gosod yn briodol yn y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol iddynt.<br>Fe fyddwn yn ystyried y polisïau cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac yn cynnal profion sylweddol ar drafodion incwm a gwariant. |

| Risgiau Archwilio Arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Rheolwyr yn Diystyru Camau Rheoli**<br>Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru camau rheoli yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd nad oes modd rhagweld y modd y gall diystyru o'r fath ddigwydd, fe'i gwelir fel risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Fe fyddwn yn gwneud y canlynol:<br>• deall a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau camau rheoli mewnol;<br>• rhoi prawf ar briodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifo i weld a oes tuedd;<br>• gwerthuso rhesymeg unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i drefn arferol busnes; a<br>• cynllunio ein gweithdrefnau archwilio i gynnwys elfen annisgwyl sydd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. |
| **Trefniadau Cyflenwyr Cymhleth**<br>Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Cyngor Adran Ariannol (FRC) ddatganiad i'r wasg ynghylch trefniadau cyflenwyr cymhleth, sydd yn cynyddu'r canolbwynt ar yr adolygiad a chyfrifo'r cyfryw drefniadau. Mae risg arwyddocaol o beidio cyfrif am drafodion o'r fath neu beidio eu datgelu yn briodol. | Fe fyddwn yn gwneud y canlynol:<br>• Cael ar ddeall gan y rheolwyr sut y maent yn bodloni eu hunain fod trefniadau cyflenwyr cymhleth yn cael eu hadnabod, eu rheoli a'u hadlewyrchu yn iawn yn y cofnodion cyfrifo a'r datganiadau ariannol.<br>• Deall oblygiadau masnachol a chyfrifo pob un math o gytundeb (er enghraifft, os yw trefniant wedi ei gysylltu â phrisio/pryniannau yn y dyfodol, yna rhaid cymhwyso unrhyw ddisgownt dros y cyfnod perthnasol). Byddwn yn adolygu'r cytundebau perthnasol ac yn asesu'r cyfrifo am y trafodion cysylltiedig.<br>• Adolygu'r datgeliadau a wnaed yn y datganiadau ariannol o farn allweddol a'r polisi cyfrifo yng nghyswllt unrhyw drefniadau cyflenwyr cymhleth. |
| **Risgiau Archwilio Uwch** | **Ymateb archwilio arfaethedig** |
| **Atebolrwydd pensiwn**<br>Mae gan y Cyngor ar hyn o bryd atebolrwydd perthnasol net yng nghyswllt ei rwymedigaethau pensiwn ar y fantolen.<br>Gwelsom wallau yn y data cyfrifiad oedd yn sail i'r ffigwr atebolrwydd pensiwn net yng nghyfrifon y Cyngor yn 2012-13 a 2013-14 o ganlyniad i fethiant y Cyngor i roi digon o wybodaeth i gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd am symudiadau a newid rôl gweithwyr mewn digon o bryd. | Byddwn yn asesu agwedd y Cyngor at asesu ei atebolrwydd pensiwn net ar 31 Mawrth 2015 a rhoi prawf ar gywirdeb a chyflawnrwydd y data gwaelodol am weithwyr a ddarparwyd i'r cynllun pensiwn. |

| Risgiau Archwilio Uwch | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio eiddo, offer a chyfarpar**<br>Mae gofyn i'r Cyngor sicrhau bod ei eiddo offer a chyfarpar a ddelir ar y Fantolen yn cael eu prisio'n ddigon rheolaidd fel ag i wneud yn siŵr nad yw'r swm a ddygir yn sylweddol wahanol i werth teg yr asedau hynny ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Cyn hyn, yr ydym wedi nodi addasiadau cyfrifo ynghylch asedau na phrisiwyd yn ffurfiol y flwyddyn honno ac na chafodd eu haddasu am y tybiwyd nad oeddent yn sylweddol. Y mae risg y gallai addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn sylweddol. | Byddwn yn ystyried agwedd y Cyngor at asesu a chyfiawnhau prisio ei eiddo, offer a chyfarpar ar 31 Mawrth 2015 ac yn ystyried a yw yn ddigonol a phriodol ai peidio. Byddwn yn defnyddio ein harbenigwyr prisio mewnol i ystyried y fethodoleg brisio a ddefnyddiwyd, yn ogystal â chadernid rhagdybiaethau ac amcangyfrifon allweddol y rheolwyr. |

**10.** Nid wyf yn ceisio sicrwydd absoliwt ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond yn hytrach yn glynu at gysyniad perthnasedd. Fy nod yw gweld a oes camddatganiadau perthnasol, hynny yw, rhai a allai beri i rywun sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Byddaf yn adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio am y lefelau pryd y byddaf yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol, a hynny cyn cwblhau'r archwiliad.

**11.** Fe wnaethom osod perthnasedd cyffredinol i'n helpu i gynllunio'r strategaeth archwilio cyffredinol ac i asesu effaith unrhyw addasiadau a nodwyd. Gosodwyd perthnasedd cyffredinol ar un y cant o'r cyfanswm gwariant ar sail cyfrifon 2013-14, sef £2,200k. Fe fyddwn yn cyfoesi'r asesiad hwn yn ôl y galw yng ngoleuni gwir ganlyniadau'r Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015. At ddibenion adrodd, fe wnaf drin unrhyw gamddatganiadau islaw lefel 'dibwys' (yr isaf o bump y cant o berthnasedd neu £100,000) fel rhai nad oes angen eu hystyried gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant ac felly ni fyddaf yn adrodd amdanynt.

**12.** Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- fod gwybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r safon a ddisgwylir, ac wedi bod yn destun adolygiad sicrhau ansawdd;
- y darperir lle a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i wneud yr archwiliad mewn modd effeithlon;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- fod gennych yr holl gamau rheoli a gwiriadau i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd y mae arnaf ei angen yn y Llythyr Cynrychioli wedi ei gyfeirio ataf i; a
- bod rhaglen waith gynlluniedig yr Archwilio Mewnol yn gyflawn a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

**13.** Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau yng nghyswllt archwilio datganiadau ariannol statudol Cyngor Sir Ynys Môn a osodwyd allan uchod, mae rheidrwydd arnaf hefyd i ardystio adroddiad i Lywodraeth Cymru i gefnogi paratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

## Risg o dwyll

**14.** Dywed y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) fy mod yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol, o'u cymryd yn eu cyfanrwydd, yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed hynny wedi eu hachosi trwy dwyll neu wall. Crynhoir isod gyfrifoldebau archwilwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant:

| Cyfrifoldeb yr archwilwyr | Cyfrifoldeb y rheolwyr | Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant |
|---|---|---|
| Dyma f'amcanion:<br>• adnabod ac asesu'r risgiau o gam-ddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol oherwydd twyll;<br>• cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau a aseswyd o gam-ddatgan sylweddol oherwydd twyll, trwy gynllunio a gweithredu ymatebion priodol; ac<br>• ymateb yn briodol i dwyll neu amheuaeth o dwyll a welwyd yn ystod yr archwiliad. | Dyma gyfrifoldebau'r rheolwyr yng nghyswllt twyll:<br>• cynllunio a gweithredu rhaglenni a chamau rheoli i atal, rhwystro a chanfod twyll;<br>• gofalu bod diwylliant ac amgylchedd yr endid yn hybu ymddygiad moesegol; a<br>• cynnal asesiad risg sydd yn benodol yn cynnwys risg twyll, gan ymdrin â chymhellion a phwysau, cyfleoedd, ac agweddau a rhesymoli. | Dyma eich cyfrifoldeb fel rhan o'ch rôl lywodraethu:<br>• gwerthuso fel y mae'r rheolwyr wedi adnabod risg o dwyll, gweithredu mesurau gwrth-dwyll a chreu 'naws y brig' priodol; a<br>• sicrhau yr ymchwilir yn briodol i unrhyw honiadau neu amheuaeth o dwyll a ddygir i'ch sylw. |

**15.** Byddwn yn holi'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant:

- A oes gennych wybodaeth am dwyll, naill ai gwirioneddol, amheuaeth neu honiad ohono, gan gynnwys twyll ymysg rheolwyr?
- Pa fesurau canfod neu atal twyll (ee llinellau ffôn i rai sy'n canu cloch) sydd ar gael yn yr endid?
- Pa rôl sydd gennych yng nghyswllt twyll?
- Pa brotocolau / gweithdrefnau a sefydlwyd rhwng y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant a'r rheolwyr i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau o dwyll, naill ai gwirioneddol, amheuaeth neu honiad ohono?

# Ardystio ceisiadau ac adroddiadau am grantiau

**16.** Mae PwC, yn gweithredu fel asiant yr Archwilydd Cyffredinol, yn ymgymryd â gwaith ardystio ar geisiadau grant y Cyngor ac adroddiadau amdanynt yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**17.** Mae fy ffi archwilio am y gwaith hwn wedi ei osod allan yn Arddangosyn 6.

## Materion cyffredinol a nodwyd

**18.** Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi'r materion mwy arwyddocaol a/neu gylchol a nodwyd wrth wneud gwaith ardystio grantiau yn 2013-14.

Arddangosyn 3: Materion cyffredinol yn ymwneud â hawlio grantiau ac ardystio adroddiadau

| Ceisiadau grantiau a gymhwyswyd ac adroddiadau a amodwyd yn 2013-14 |
|---|
| Ar sail y gwaith a wnaethom hyd yma, mae 12 o'r 22 cais a archwiliwyd gennym naill ai wedi eu hamodi (1), eu haddasu (7) neu wedi eu hamodi a'u haddasu (4). Y prif resymau am hyn yw bod y gwariant a hawliwyd yn anghymwys dan delerau cyllido'r grant neu yn wariant sy'n cael ei gynnwys yn y cyfnod hawlio anghywir. |
| **Effeithiolrwydd trefniadau cyd-gordio grantiau** |
| Bydd sylwadau am effeithiolrwydd trefniadau cyd-gordio grantiau yn y Cyngor yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â grantiau ac adroddiadau 2013-14, a gyhoeddir ar wahân. |

## Materion yn ymwneud â cheisiadau grant penodol ac adroddiadau

**19.** Yn ychwanegol at y materion cyffredinol a nodwyd uchod, bydd y materion mwy arwyddocaol a nodwyd yng nghyswllt ceisiadau unigol am grantiau ac adroddiadau yn cael eu cyfleu yn yr adroddiad blynyddol ac yn y llythyrau a ddaw gyda'r ceisiadau a ardystiwyd.

# Archwiliad o berfformiad


**20.** Mae'r Mesur yn mynnu fy mod yn cynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, i weld a yw'r awdurdod yn debyg o gydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwella cyson. Rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau i weld a gyflawnodd yr awdurdod ei ddyletswyddau dan y Mesur. Mae fy ngwaith asesu gwella, ynghyd â'm gwaith ar faterion ariannol, hefyd yn cyflawni fy nghyfrifoldeb i fodloni fy hun fod y corff a archwiliwyd wedi gwneud y trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

**21.** Yn ychwanegol at fy rhaglen o waith archwilio ac asesu dan y Mesur, byddaf yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol yn ôl gofyniad adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Nid yw'r gwaith hwn wedi ei gynnwys o fewn ffi'r archwiliad lleol o berfformiad, ond y mae wedi ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru am gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru.

**22.** Yr wyf yn gosod allan yn yr adran hon y rhaglen 12 mis o waith archwiliad o berfformiad a wneir yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Pennwyd cynnwys y rhaglen trwy ystyried y risgiau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, maint y wybodaeth archwilio ac arolygu sydd wedi cronni, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth eraill sydd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau'r Cyngor ei hun ar gyfer adolygu a gwerthuso.

23. Mae cydrannau fy ngwaith archwilio perfformiad i'w gweld yn Arddangosyn 4 ac fe'u cynlluniwyd er mwyn helpu cyflwyno'r amcanion lefel-uchel a osodir allan yn ein strategaeth gorfforaethol am 2013-2016 (www.wao.gov.uk/publication/wales-audit-office-corporate-strategy-2013-2016

Arddangosyn 4: Cydrannau fy ngwaith archwilio perfformiad




24. Ceir crynodeb o'r gwaith perfformiad y bwriadaf ei wneud yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Cynnwys fy rhaglen waith archwilio perfformiad am 2015-16

| | Prosiectau penodol |
|---|---|
| **Archwiliad gwella ac asesu** | **Archwiliad 'Cynllun gwella'**<br>Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella.<br>**Archwiliad 'Asesu perfformiad'**<br>Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.<br>**Adolygiad o reolaeth ariannol**<br>Gwaith pellach ar drefniadau rheolaeth ariannol yn dilyn ein hadolygiad yn 2014-15, a chan edrych ymlaen at gynigion gosod cyllideb ac arbedion am 2016-17. Byddwn yn canolbwyntio hefyd ar sefyllfa a pholisi'r cronfeydd wrth gefn, a'r defnydd ohonynt.<br>**Adolygiad llywodraethiant**<br>Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen eu gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol.<br>**Adolygiad rheoli perfformiad**<br>Astudiaeth ar draws gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad. Bydd hyn yn golygu dwyn AGGCC i mewn.<br>**Adolygiad(au) a bennir yn lleol**<br>Dilyniant i agweddau a nodwyd fel rhai angen gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol. |

| | Prosiectau penodol |
|---|---|
| **Astudiaethau llywodraeth leol** | **Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi tâl**<br>Dan y thema o 'gyflawni gyda llai', bydd yr astudiaeth hon yn golygu archwilio agwedd strategol cynghorau at godi tâl, y broses gymeradwyo ar gyfer gosod tâl a'i adolygu, ac effaith codi tâl ar wasanaethau a'r sawl sy'n eu defnyddio.<br>**Cynghorau yn cyllido gwasanaethau trydydd sector**<br>Hefyd dan y thema 'cyflawni gyda llai', bydd yr astudiaeth hon yn gwneud y canlynol:<br>• archwilio lefel y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r sector wirfoddol i feincnodi canfyddiadau yn erbyn asesiadau cynharach;<br>• adolygu'r mesurau a ddefnyddiwyd i farnu effeithiolrwydd cyllido mewn ardal sy'n cael ei 'holrhain'; ac<br>• adolygu prosesau gwneud penderfyniadau i bennu a yw egwyddorion llywodraethiant da wrth gyllido gwasanaethau trydydd sector yn cael eu dilyn ai peidio.<br>**Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol ac effaith gwaith y partneriaethau o ran cyflwyno gwelliannau yn eu cymunedau. |
| **Arfer da** | Yn unol â'm hymrwymiad i adnabod a rhannu arferion da, byddaf yn parhau i gynnal seminarau rhannu dysgu, yn nodi astudiaethau achos perthnasol ac yn canolbwyntio fy ngwaith ar adnabod a hybu arfer effeithiol. |

# Ffî, tîm archwilio ac amserlen

## Ffî

**25.** Mae amcangyfrif eich ffi am 2015 wedi ei osod allan yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: Ffî Archwilio

| Maes archwilio | Ffi Arfaethedig (£)[1] | Union ffi y llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio ariannol**[1] | £193,000 | £199,200 |
| **Gwaith archwilio perfformiad:**[2] | | |
| • Archwiliad gwella a gwaith asesu a dilyniant | £113,715 | £119,480 |
| **Cyfanswm Ffi** | **£306,715** | **£318,680** |
| **Cyfanswm gwaith ardystio grantiau** | £135,000[4] | £135,000 hyd yma |

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw bellach yn cael ei godi arnoch.

Nodiadau:

[1] Taladwy Tachwedd 2014 i Hydref 2015.

[2] Taladwy Ebrill 2015 i Fawrth 2016.

[3] Taladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud.

[4] Noder mai amcangyfrif yw'r ffi arfaethedig am 2015 ar sail union ffioedd ardystio grantiau 2014 ac y gall newid yn dibynnu ar y rhaglen waith fydd ei hangen.

**26.** Mae'r broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio, ac yn sgil hynny, fy ffi, os daw unrhyw risgiau allweddol newydd i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb yn gyntaf eu trafod gyda'r Cyngor.

**27.** Mae mwy o wybodaeth am gyfraddau fy ffioedd a gosod ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn: www.wao.gov.uk/about-us/fee-scales-and-fee-setting.

## Tîm archwilio

**28.** Mae manylion prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, wedi eu crynhoi yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Lynn Pamment | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 802390 | lynn.pamment@uk.pwc.com |
| Martin George | Rheolwr Archwilio Ariannol | 02920 802014 | martin.r.george@uk.pwc.com |
| Richard Lanagan | Arweinydd Tîm Archwilio Ariannol | 07747 532529 | richard.s.lanagan@uk.pwc.com |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320 500 | Derwyn.Owen@wao.gov.uk |
| Jane Holownia | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio perfformiad | 02920 320500 | Jane.Holownia@wao.gov.uk |
| Huw Lloyd Jones | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07813 822017 | Huw.LloydJones@wao.gov.uk |
| Andy Bruce | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07919 164779 | Andy.bruce@wao.gov.uk |

## Annibyniaeth

**29.** Gallaf gadarnhau fod holl aelodau fy nhîm oll yn annibynnol ar Gyngor Sir Ynys Môn a'ch swyddogion. Nid wyf yn ymwybodol chwaith o unrhyw wrthdaro buddiannau y dylwn eu dwyn i'ch sylw.

**30.** Ar ddechrau'r broses archwilio, mae gofyn i fy nhîm archwilio asesu eu hannibyniaeth fel eich archwiliwr allanol. Rwyf wedi gwneud ymholiadau ymysg yr holl dimau archwilio sy'n darparu gwasanaeth i chi ac yr wyf wedi gosod allan bob math o berthynas a all, yn fy marn broffesiynol i, gael eu canfod fel rhywbeth a allai gael effaith ar fy annibyniaeth a gwrthrychedd fy nhîm archwilio, ynghyd â'r camau diogelu cysylltiedig.

| Gwasanaethau a ddarparwyd | Ffi (amcangyfrif) | Bygythiadau i annibyniaeth a chamau diogelu sydd ar gael |
|---|---|---|
| Ardystio ceisiadau ac adroddiadau am grantiau | IG | **Bygythiad Hunan-Adolygu**: Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal yr ardystiad grant. Nid oes bygythiad hunan-adolygu oherwydd bod y tîm archwilio yn ardystio adroddiadau a hawliadau grant a gwblhawyd.<br>**Bygythiad Hunan-Les:** Nid oes gan fy nhîm archwilio unrhyw fudd ariannol nac arall yng nghanlyniadau'r Cyngor. Yr wyf wedi dod i'r casgliad nad oes bygythiad hunan-les yn y gwaith hwn.<br>**Bygythiad Rheolaeth:** Nid oes angen i'm tîm archwilio gymryd unrhyw benderfyniadau ar ran y rheolwyr fel rhan o'r gwaith hwn.<br>**Bygythiad Eiriol:** Ni fyddaf yn gweithredu ar ran y rheolwyr, nac ochr yn ochr a hwy, ac yr wyf felly wedi dod i'r casgliad nad oes bygythiad eiriolaeth yn y gwaith hwn.<br>**Bygythiad Cynefindra:** Mae'r gwaith yn ategu penodiad fy nhîm archwilio fel archwilwyr allanol ac nid oes bygythiad cynefindra. |

**31.** Ni ddylai uwch-swyddogion nac aelodau geisio na derbyn cyngor ariannol na chyngor ar faterion treth gan fy nhîm archwilio. Dylai uwch-swyddogion ac aelodau sy'n derbyn cyngor o'r fath gennym fy hysbysu, fel y gallaf osod trefniadau rheoli gwrthdaro priodol ar waith.

**32.** Felly ar ddyddiad y cynllun hwn, rwy'n cadarnhau, yn fy marn broffesiynol i, fod fy nhîm archwilio yn gyfrifwyr annibynnol yng nghyswllt y Cyngor, yn ystod gofynion rheoleiddiol a phroffesiynol y Deyrnas Unedig ac nad amherir ar wrthrychedd fy nhîm archwilio.

## Amserlen

**33.** Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Pwyllgor Archwilio yn ymdrin â'r meysydd gwaith a nodwyd yn y ddogfen hon. Mae fy ngherrig milltir allweddol wedi eu gosod allan yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: Amserlen

| Cynnyrch a gynlluniwyd | Gwneir y gwaith: | Adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio 2015 | Mawrth 2015 | Mai 2015 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Archwilio Adroddiad Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar Ddatganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol<br>• Cyfrifon Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf – Medi 2015 | Medi 2015 |
| Gwaith perfformiad | Mai 2015 i Chwefror 2016 | Cyhoeddi adroddiadau wedi cwblhau prosiectau unigol, mewn ymgynghoriad â'r Cyngor |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | Mai i Ragfyr 2015 | Mawrth 2016 |

** Yn amodol ar glirio'r canfyddiadau drafft mewn pryd gyda Chyngor Sir Ynys Môn.*

# Atodiad 1

## Cyfrifoldebau

### Archwilio ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gosod allan fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd am y datganiadau ariannol sydd yn cynnwys barn ar y canlynol:

- Eu 'gwirionedd a thegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatgan sylweddol, boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a pherthnasol eraill; a
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ynghylch cyflwyniadau a datgeliadau cyfrifo.
- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol gyda'r datganiadau ariannol.

Rhaid i mi hefyd ddweud, trwy eithriad, os na fydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifo cywir, os na wnaed datgeliadau sydd eu hangen am gydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os na dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gofyn fy mod yn asesu a yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. I wneud hyn, rwyf yn ystyried y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system Cyngor Sir Ynys Môn o reolaeth fewnol, fel yr adroddwyd arno yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a'm hadroddiad ar hwnnw;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a wnaed dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystio hawliadau ac adroddiadau, ac ymarferion cyfatebu data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas ymdriniwyd â hwy gan yr uchod, ac a ystyrir gennyf yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gosod allan hawliau'r cyhoedd a'r etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn a dogfennau cysylltiedig, i ofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwiliwr a Benodwyd, am y cyfrifon, a, lle bo hynny'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi ystyried a ddylwn, er lles y cyhoedd, wneud adroddiad am unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn dwyn oddi ar y rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant eu cyfrifoldebau sydd yn cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifo perthnasol;
- cadw cofnodion cyfrifo cywir;
- sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd; a
- sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i ddarparu'r canlynol i mi:

- mynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohono sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdano gan y rheolwyr at ddibenion yr archwiliad; a
- mynediad dirwystr at bobl yng Nghyngor Sir Ynys Môn yr wyf yn pennu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi sylwadau ysgrifenedig i mi i gadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu dyletswyddau o ran paratoi'r datganiadau ariannol;
- fod yr holl drafodion wedi eu cofnodi ac wedi eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- cyflawnder y wybodaeth a ddarparwyd i mi at ddibenion yr archwiliad; a
- cefnogi'r dystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os tybiaf bod angen hynny neu os yw ISAs yn mynnu hynny.

## Archwiliad o berfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth weithredu [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofyniad penodol ar awdurdodau i osod amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella ac asesiadau perfformiad blynyddol. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn mynnu fy mod yn cynnal asesiad gwella ar bob awdurdod gwella bob blwyddyn, i bennu a yw'r awdurdod yn debygol ai peidio o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliad i weld a gyflawnodd yr awdurdod ei ddyletswyddau cynllunio gwella ac adrodd.

Dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (dan adran 21), ac yng nghyswllt hyn bydd yn darparu adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau am arolygiadau arbennig.

I gyflawni gofynion y Mesur, byddaf yn cynnal asesiadau corfforaethol o bryd i'w gilydd ym mhob awdurdod gwella. Ers 2013-14, rwyf wedi cynnal y rhaglen hon o asesiadau corfforaethol yn gylchol. Ar hyn o bryd, yr wyf wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru y gallaf ddefnyddio'r grant rwyf yn dderbyn gan Lywodraeth Cymru i dalu am yr asesiad corfforaethol. Golyga hyn, yn ychwanegol at y gwaith asesu gwella ac archwilio a gyllidir gan y ffi, y bydd pob awdurdod yn derbyn asesiad corfforaethol manwl unwaith mewn cyfnod o bedair blynedd. Yn y cyfamser, byddaf yn cadw trosolwg 'ysgafn' ar ddatblygiadau ac ar y cynnydd a wneir gan yr awdurdod.

Os daw materion o bryder neu flaenoriaeth i'r amlwg, yr wyf yn cadw'r hyblygrwydd i gynnal asesiad corfforaethol yn amlach.

Yn ychwanegol at fy rhaglen o waith archwilio ac asesu dan y Mesur, byddaf yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol yn ôl gofyniad adrannau 41 a 42 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Nid yw'r gwaith hwn wedi ei gynnwys yn ffi'r archwiliad o berfformiad lleol, ond y mae wedi ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru am gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

# Atodiad 2

## Astudiaethau cenedlaethol gwerth-am-arian

Efallai y bydd gan Gyngor Sir Ynys Môn ddiddordeb hefyd yn yr archwiliadau gwerth-am-arian cenedlaethol y byddaf yn eu cynnal, gan y bydd rhai yn berthnasol iawn i lywodraeth leol ac y gallant olygu casglu gwybodaeth ar draws llywodraeth leol. Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n talu am yr astudiaethau hyn ac fe'u cyflwynir i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn ymdrin â'r holl waith ar astudiaethau gwerth-am-arian sydd wedi ei raglennu ar hyn o bryd, er mai yn y cyfnod datblygu cynnar y mae peth o'r gwaith hwn er hynny. Mae'r rhaglen yn cynnwys crynodebau Cymru-gyfan o waith archwilio a wneir yn lleol yn y GIG, ac archwiliadau ymatebol i faterion penodol o ddiddordeb i'r cyhoedd fyddai wedi eu codi gyda mi. Toc, byddaf yn ystyried ac yn ymgynghori ar feysydd pwnc posib ar gyfer astudiaethau gwerth-am-arian fydd yn cychwyn yn 2015-16, ac yn rhai achosion, y ceir adroddiad amdanynt.

Fe gewch ddiweddariadau pellach am fy rhaglen o astudiaethau gwerth-am-arian yn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi a ragwelir |
|---|---|
| Rhagnodi gan feddygon teulu | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band llydan yn genhedlaeth nesaf | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Consortia addysg rhanbarthol | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Prynu Maes Awyr Caerdydd gan Lywodraeth Cymru | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Gwasanaethau rheilffordd | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Gwasanaethau orthopedig | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Rhestrau aros y GIG a phractis preifat | Haf 2015 |
| Darlun o wasanaethau cyhoeddus | Hydref 2015 |
| Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru | Hydref 2015 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio[2] | I'w gadarnhau |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru[3] | I'w gadarnhau |
| Rheoli risg llifogydd ac erydu (yn debyg o ganoli ar lifogydd arfordirol) | I'w gadarnhau |

[2] Tra'i fod wrthi'n cael ei glirio, mae'r amserlen gyhoeddi yn ansicr am resymau penodol i'r prosiect.

[3] Tra'i fod wrthi'n cael ei glirio, mae'r amserlen gyhoeddi yn ansicr am resymau penodol i'r prosiect.

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi a ragwelir |
|---|---|
| Ymyriad cynnar a newid ymddygiad y cyhoedd[4] | I'w gadarnhau |
| Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol[5] | I'w gadarnhau |
| Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio | I'w gadarnhau |
| Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | I'w gadarnhau |

[4] Yn y tymor byr, bydd datblygu'r adroddiad darlun newydd o wasanaethau cyhoeddus yn cymryd blaenoriaeth dros y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad darlun o wasanaethau cyhoeddus yn debygol o adlewyrchu'r themâu hyn mewn rhyw ffordd. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn fel rhan o'n rhaglen cyfnewid arferion da.

[5] Edrychir eto ar gynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yng ngoleuni'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriad Môn ac i ystyried unrhyw oblygiadau ehangach sy'n codi o'r rhaglen o ddiwygio llywodraeth leol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk